# SL(5)553 - Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a diben

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau") yn gostwng y cyfraddau isaf ar gyfer gwiriadau a rheoli mewn perthynas â cheisiadau am daliadau amrywiol o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol 2020 yn unol â chyfraith yr UE.

Yng ngoleuni'r pandemig, cyhoeddodd yr UE Gyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/532, yn rhanddirymu'r gofynion cyfredol yng nghyfraith yr UE yn ymwneud â Chynllun y Taliad Sylfaenol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer 2020 ynghylch rhai gwiriadau gweinyddol a gwiriadau yn y fan a'r lle sy'n gymwys o fewn y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC).

Mae'r Rheoliadau'n adlewyrchu'r rhanddirymiadau, i'r graddau y maent yn berthnasol i Gynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae'r Rheoliadau'n addasu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 ("y Rheoliad Gweithredu") (sy'n gosod y rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013) mewn perthynas â'r system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 yng nghyd-destun taliadau i ffermwyr.

Yn wahanol i gyfraith arall yr UE yn ymwneud â'r PAC, nid yw newidiadau i ddeddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE yn gymwys yn awtomatig yn ystod y Cyfnod Gweithredu. Gan hynny, mae angen deddfwriaeth ddomestig i ostwng y cyfraddau isaf ar gyfer gwiriadau a rheoli yng nghyd-destun Cynllun y Taliad Sylfaenol 2020. Mae cyfraith yr UE yn dal i lywodraethu elfennau eraill o'r PAC, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig.

Mae'r Rheoliadau:

a) yn gwneud newidiadau gweinyddol i'r modd y gellir defnyddio technoleg i gynnal gwiriadau; a

b) yn gostwng cyfradd isaf y gwiriadau yn y fan a'r lle o gymharu â'r cyfraddau rheoli arferol ar gyfer rhwymedigaethau Gwyrddu, trawsgydymffurfio, Cynllun y Taliad Sylfaenol, ailddosbarthu a ffermwyr ifanc.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Nid yw Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cael ei lywodraethu mwyach gan gyfraith yr UE o ganlyniad i Erthygl 137 o'r Cytundeb Ymadael. Cafodd deddfwriaeth y UE sy'n llywodraethu cynlluniau Taliadau Uniongyrchol PAC 2020 ei hymgorffori mewn cyfraith ddomestig drwy'r Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ar y Diwrnod Ymadael. Yn wahanol i gyfreithiau eraill yr UE sy'n ymwneud â'r PAC, nid yw newidiadau i ddeddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE yn gymwys yn awtomatig yn ystod y Cyfnod Gweithredu, ac felly mae'n ofynnol i ddeddfwriaeth ddomestig ostwng y cyfraddau isaf ar gyfer gwiriadau a rheoli ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol 2020 yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 2020/532. Mae cyfraith yr UE yn parhau i lywodraethu elfennau eraill o'r PAC, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**9 Mehefin 2020**